



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynnig ar gyfer cofrestru gweithwyr
cymorth dysgu mewn ysgolion gyda
Chyngor y Gweithlu Addysg

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2015

Cynnig ar gyfer cofrestru gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

Cynulleidfa	Pob corff ym maes addysg gan gynnwys undebau, awdurdodau lleol, ymarferwyr, darparwyr hyfforddiant addysg, cyrff dyfarnu a sefydliadau ac elusennau cenedlaethol.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a'r adborth yn ymwneud â'r diffiniad arfaethedig o'r ymarferwyr sy'n gweithio o fewn ysgol a gynhelir ac a fydd yn dod o fewn y gofyniad i gofrestru dan y categori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgolion.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Nathan Huish Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Cynnwys

Y cefndir	2
Yr ymgynghoriad	3
Crynodeb o'r ymatebion	4
Cwestiwn 1	4
Cwestiwn 2	5
Cwestiwn 3	7
Cwestiwn 4	8

Y cefndir

Yn sgil Deddf Addysg (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"), ailgyfluniwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol

Cymru ("y Cyngor Addysgu"); ehangwyd cylch gwaith y corff; a diwygiwyd cyfansoddiad ei aelodaeth, er mwyn creu Cyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor).

Mae'r Ddeddf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, i athrawon ysgol, athrawon addysg bellach, gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach, a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, gofrestru gyda'r Cyngor.

O Ebrill 2016, bydd y gofyniad am gofrestru proffesiynol yn cael ei ymestyn i gynnwys staff cymorth dysgu. Golyga hyn y bydd yn rhaid i berson gofrestru gyda'r Cyngor er mwyn gweithio fel gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol neu leoliad addysg bellach yng Nghymru. Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 yn gwneud rhywfaint o ddarpariaeth ynglŷn â phersonau nad ydynt yn athrawon cymwysedig, a allai gyflawni gwaith penodedig er mwyn cynorthwyo neu gefnogi gwaith athrawon cymwysedig.

O ran gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach, mae adran 16 o Ddeddf 2014, a thabl 1 o Atodlen 2 iddi, yn nodi'r diffiniad o'r personau sy'n dod o fewn y term 'gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach'. Nid yw Deddf 2014 yn diffinio ystyr gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion. Yn hytrach, mae Deddf 2014 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu na chaiff gwasanaethau penodedig eu darparu gan berson mewn ysgol oni bai bod y person hwnnw wedi bodloni'r gofynion a nodir mewn rheoliadau a wnaed dan adran 14(1)(a)(ii).

Mae atodlen 2 i Ddeddf 2014 yn darparu disgrifiad o weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol, sef:

"person sy'n bodloni'r gofynion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 14(1)(a)(ii) ac sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) unrhyw wasanaethau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran honno mewn ysgol."

Felly, bydd y rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 14(1)(a)(ii) o Ddeddf 2014 yn nodi'r gofynion ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion (hy y diffiniad llawn o'r rôl) a'r gwasanaethau na chaiff personau eu darparu oni bai eu bod wedi'u cofrestru yn y categori cofrestru hwnnw gyda'r Cyngor.

Yr ymgynghoriad

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal ar draws amryw o sectorau allweddol drwy gyfrwng gwahanol rwydweithiau.

Cafwyd 23 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Cafwyd ymatebion o'r sectorau canlynol

Ymatebydd	Nifer yr ymatebion
Cyrff Dyfarnu	3
Undebau	6
Ysgolion Colegaua Phrifysgolion	2
Awdurdodau Lleol	3
Darparwyr Hyfforddiant Addysg	1
Sefydliadau ac Elusennau Cenedlaethol	6
Unigolion	2
Cyfanswm	23

Mae'r ddogfen hon yn trafod canlyniad yr ymgynghoriad ac mae wedi'i seilio ar yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn. Nid yw'n fwriad trafod pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr. Yn hytrach, mae'r ddogfen hon yn amlygu'r prif faterion a themâu a godwyd. Mae rhestr o'r ymatebwyr ynghyd â'r ymatebion i'w gweld yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Crynodeb o'r ymatebion

Cwestiwn 1

A ydych chi'n cytuno gyda'r hyn a gynigir, sef y bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru os ydynt yn cyflawni un neu ragor o weithgareddau penodedig a ddiffinnir o dan baragraff 6.13?

Yr ymateb i'r ymgynghoriad:

Derbyniwyd 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif (20) yn cytuno â'r diffiniad a nodwyd yn 6.13, roedd 1 yn anghytuno, ac roedd yna 2 na wnaeth ymateb neu na roddodd ateb pendant. Roedd yn ddiddorol bod llawer yn cytuno â'r cynnig, heb deimlo'r angen i wneud sylwadau.

Cyflwynodd yr ymatebwyr y sylwadau canlynol ynghylch y cwestiwn hwn:

- Mae UNSAIN yn cytuno â'r cynnig yng Nghwestiwn 1.
- Mae Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn hapus gyda'r cynigion fel y maent. Bydd yn bwysig bod y diffiniad o "weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion" yn glir, o ran pa gyflogeion i'w cynnwys a pha sefydliadau i'w cyfrif fel ysgolion i'r diben hwn. Yn amodol ar hyn, mae Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn croesawu'r dull gweithredu a gynigir.
- Roedd dwy ran o dair o aelodau Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru sy'n gweithio fel staff cymorth ac a atebodd ein harolwg yn gefnogol i ddefnyddio gweithgareddau yn hytrach na theitlau swyddi i ddisgrifio pwy y dylid eu cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg fel staff cymorth.
- Mae angen peth eglurhad gan fod y diffiniad a roddir ym mharagraff 6.13 yn nodi rhai dyletswyddau, fel y'u diffinnir yn statudol, sy'n berthnasol i gynorthwywyr addysgu lefel uwch yn bennaf. I bob golwg, mae'r diffiniad hwn hefyd i gynnwys staff cymorth sydd, er heb fod yn gymwysedig neu â hawl gyfreithiol i gyflawni 'gwaith penodedig' o'r fath, yn helpu gyda gwaith o'r fath serch hynny.

Cwestiwn 2

Mae 'gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol' yn gategori o gofrestrriad o fewn Deddf 2014 ac yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio person sy'n dymuno darparu gwasanaethau penodedig o fewn ysgol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd amryw o deitlau/swyddi eraill yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r rôl hon, a nodir y rhain dan 6.5 (i ddibenion egluro yn unig).

A oes unrhyw ddarparwyr gwasanaethau eraill nad ydynt yn y rhestr hon ac a fyddai yn eich tyb chi yn gweddu i'r disgrifiad hwn (gan ystyried y diffiniad a nodir o dan baragraff 6.13)?

Yr ymateb i'r ymgynghoriad

Derbyniwyd 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (14) awgrymu darparwyr gwasanaeth eraill y dylid eu cynnwys yn y diffiniad o weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol, roedd yna nifer fach (6) nad oedd am ychwanegu unrhyw ddarparwyr gwasanaeth eraill, ac ni wnaeth y gweddill (3) ymateb neu ni roesant ateb pendant.

Cyflwynodd yr ymatebwyr y sylwadau canlynol ynghylch y cwestiwn hwn:

- Awgrymodd ein haelodau y dylid cynnwys teitlau swyddi eraill yn y rhestr a ddarparwyd o'r rheini a ddylai gofrestru:

Gweinyddesau meithrin
Cydgysylltwyr chwarae a dysgu
Swyddogion ymgysylltu â theuluoedd
Cynorthwywyr cymorth ymddygiad
Cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol
Cynorthwywyr cymorth lleferydd ac iaith
Cydynwyr Anghenion Addysgol Arbennig Cynorthwyol

- Athrawon heb gymhwyso sy'n rhoi cymorth gyda sgiliau sylfaenol neu'n darparu rhaglenni ymyrryd ar gyfer anghenion o bob math, gan gynnwys cymorth llythrennedd a rhifedd
Cynorthwywyr cymorth llythrennedd/rhifedd/darllen/rhifau
Cynorthwywyr/athrawon ymyrryd
Cynorthwywyr cymorth disgyblion
Cydgysylltwyr ymyrraeth ddarllen
Mentoriaid dysgu
Gweithwyr ieuenctid
Hyfforddwyr dysgu

Dylai'r cynigion ei gwneud yn glir a yw'n ofynnol i gynorthwywyr ieithoedd tramor gofrestru ai peidio. Nid yw'n ofynnol iddynt gael eu cofrestru gan unrhyw sefydliad proffesiynol arall.

- Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn teimlo y dylid cynnwys athrawon heb eu cymhwyso yn y categori hwn. Byddai hyn yn cynnwys athrawon dan hyfforddiant sy'n gweithio tuag at statws athro cymwysedig, er enghraifft athrawon dan hyfforddiant a gyflogir o dan fenter Teach First.
- Swyddogion arholiadau
- Na, mae'r rhestr yn gynhwysfawr fel y mae.
- Mae pawb wedi'u nodi o dan 6.5.

Cwestiwn 3

Mae paragraff 6.12 yn rhestru (i ddibenion egluro yn unig) y darparwyr gwasanaethau hynny na fydd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor.

A oes unrhyw deitlau/swyddi eraill y dylid eu heithrio rhag cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg dan y categori 'gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol' (gan ystyried y diffiniad a nodir o dan baragraff 6.13)?

Yr ymateb i'r ymgynghoriad

Derbyniwyd 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd y mwyafrif (9) deitlau/swyddi y dylid eu heithrio rhag cael eu cofrestru, roedd yna nifer tebyg (8) na wnaeth ymateb neu na roddodd ateb pendant, ac roedd nifer fach (6) yn teimlo bod y teitlau swyddi yn cynnwys pawb y dylid eu heithrio.

Cyflwynodd yr ymatebwyr y sylwadau canlynol ynghylch y cwestiwn hwn:

- Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r canlynol wedi'u cynnwys yn y rhestr o dan baragraff 6.12:
 - Rheolwyr busnes/bwrsariaid
 - Rheolwyr TG
 - Swyddogion arholiadau

Fodd bynnag, unwaith eto mae'r Cyngor yn nodi y caiff y personau uchod, mewn rhai ysgolion, gyflawni'r dyletswyddau a ddisgrifir ym mharagraff 6.13. Os felly, bydd angen iddynt gofrestru.

- Darparwyr gwersi cerddoriaeth/clybiau ar-ôl-ysgol arbenigol
- Rydym wedi nodi'r teitlau/swyddi canlynol y dylid eu heithrio hefyd:
 - Swyddogion/Rheolwyr bugeiliol
 - Glanhawyr
 - Swyddogion a goruchwylwyr arholiadau
 - Llywodraethwyr ysgolion
 - Rheolwyr busnes
 - Rheolwyr safle
- Mae'n bwysig na ellir cynnwys caplaniaid ysgolion a cholegau ar y rhestr ym mharagraff 6.5.
- Gweithwyr/cynorthwyywyr cyswllt â theuluoedd
 - Clercod cyfrifon
 - Goruchwylwyr canol dydd
 - Goruchwylwyr arholiadau
 - Swyddogion cyfleusterau
- Na, mae hyn i'w weld yn briodol.

Cwestiwn 4

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Nid gofyn am ateb penodol yr oeddem yn y cwestiwn olaf hwn. Cyfle oedd hyn, yn hytrach, i ymatebwyr nodi eu barn a'u sylwadau cyffredinol. O'r 23 o ymatebion a dderbyniwyd, dim ond 13 a roddodd sylwadau ac roedd eu hymatebion yn cwmpasu ystod o faterion.

Roedd llawer o'r materion a godwyd yn ymwneud â'r ffi gofrestru, rôl Cyngor y Gweithlu Addysg, cofrestru grwpiau eraill (gan gynnwys y rheini yn y sector annibynnol) a chymwysterau/safonau proffesiynol; fodd bynnag, mae'r rhain y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Roedd rhai ymatebion yn ystyried bod y diffiniad yn cyfyngu'n ormodol ac nad yw'n ystyried staff cwmnïau a gontrectir.

Cyflwynodd yr ymatebwyr y sylwadau canlynol ynghylch y cwestiwn hwn:

- Er na fydd yn ofynnol i Gynorthwywyr Cymorth Dysgu mewn Ysgolion Annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, cânt eu helpu i wneud er mwyn sicrhau parhad rhwng y ddau sector.
- Mae'n bwysig ei gwneud yn glir p'un a fydd pob lefel o waith cymorth dysgu yn cael ei gynnwys, neu p'un ai'r lefelau uwch yn unig (fel y mae'r diffiniad statudol o'r term 'gwaith penodedig' yn ei awgrymu) sy'n berthnasol.
- Paragraff 6.13 - mae'r geiriad yn edrych yn fwy priodol i'r cynorthwywyr addysgu lefel uwch a swyddi goruchwylwyr llanw na swyddi cynorthwywyr cymorth dysgu sylfaenol L1 neu 2. Efallai bod angen adolygu'r geiriad er mwyn ehangu'r lefelau a gaiff eu cynnwys, yn unol â gweddill y ddogfen.
- Wrth drafod y rhestrau o dan baragraffau 6.5 a 6.12, a'r dyletswyddau o dan baragraffau 6.13, gyda nifer o ysgolion ac undebau llafur, mae'r pwynt canlynol wedi codi'n rheolaidd. Mewn rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd bach ac ysgolion arbennig, mae rhai staff gweinyddol neu wirfoddol sy'n dod o dan restr paragraff 6.12 yn bennaf hefyd yn cyflawni rhai o ddyletswyddau paragraff 6.13. Mae'r Cyngor yn pwysleisio mai at ddibenion enghreifftiol yn unig y mae rhestrau paragraff 6.5 a 6.12, a bod rhestr dyletswyddau paragraff 6.13 yn bwysicach. Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud hyn yn glir yn ei ganllawiau i gyflogwyr ynghylch pwy y bydd angen iddynt gofrestru a phwy na fydd angen iddynt wneud.
- "6.14 Bydd yn ofynnol i unrhyw ymarferydd sydd o fewn cwmpas y diffiniad hwn gofrestru fel gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol. Wrth gyflawni ei rôl, bydd yn cael ei dalu a'i gyflogi gan naill ai'r ysgol, yr awdurdod lleol neu gontractwr (asiantaeth gyflenwi)."

Dylai unrhyw ddeddfwriaeth gydnabod bod y defnydd o 'gontractwyr' mewn ysgol yn mynd lawer ymhellach nag 'asiantaethau cyflenwi'. Dylai fod yna

ddarpariaeth benodol yn y ddeddfwriaeth i sicrhau ei bod yn ofynnol cofrestru staff o gwmnïau a gontrectir fel y rheini a nodwyd uchod, yn ychwanegol at staff asiantaethau cyflenwi, ac nid dim ond staff yr asiantaethau cyflenwi.